Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Dawn Bowden AS

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

05 Tachwedd 2025

Annwyl Weinidog,

**"Os nad nawr, pryd? "Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal": cais am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gweithredu"**

Ar 8 Hydref, fe wnaethom ni nodi gohebiaeth gan randdeiliad a gyfrannodd at yr adroddiad a'r ymchwiliad uchod yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â rhai o'n prif argymhellion. Trafododd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yr un llythyr ar 29 Medi, ac mae wedi atodi eu henwau i gefnogi'r cais hwn.

Felly, hoffem ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar bob un o'r 20 argymhelliad yn yr adroddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'u derbyn yn llawn ac yn rhannol. Byddem hefyd yn croesawu y wybodaeth ddiweddaraf o ran naratif mewn perthynas â'r materion polisi sy'n dod o dan y saith argymhelliad yr oeddem yn siomi o'u gweld yn cael eu gwrthod, sef:

- digonolrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol plant statudol (gan gynnwys yr ystadegau diweddaraf am gyfraddau swyddi gwag a'r defnydd o staff asiantaeth);
- llwythi achosion ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol plant statudol;
- profiad o ofal fel nodwedd warchodedig;
- bylchau data yn y system ofal;
- eiriolaeth annibynnol ac eiriolaeth breswyl; a
- hyrwyddo addysg drydyddol i bobl sydd â phrofiad o ofal.

Byddem hefyd yn croesawu ymateb penodol i'r materion canlynol a godwyd gan Ganolfan Gyfreithiol y Plant, yn arbennig mewn perthynas â Gorchmynion Amddifadu o Ryddid. Tynnodd ein hadroddiad sylw at ansicrwydd ynghylch data am faint maent yn cael eu

defnyddio a gofynnwyd i chi gynnal dadansoddiad a allai lywio ymdrechion i leihau defnydd o’r gorchmynion hyn yn y tymor hir. Mewn ymateb, fe gytunoch i ddarparu “dadansoddiad o'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, wedi'u dadansoddi yn ôl yr awdurdod lleol, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn”. Gofynnwyd i chi wneud hyn erbyn mis Rhagfyr 2023; fodd bynnag, nid oedd yn glir yn eich ymateb a oeddech chi'n bwriadu bodloni'r amserlenni hyn. Serch hynny, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers hynny, gofynnwn ar frys am y canlynol:

copi o'r dadansoddiad, gan gynnwys cadarnhad o pryd a sut y cafodd ei gynnal;
crynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'r dadansoddiad;
sut y cafodd y gwaith hwn ei ystyried a sut y mae wedi dylanwadu ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant; a
diweddariad cyffredinol ar gynnydd gyda'r Rhaglen Trawsnewid yn fwy cyffredinol.

Rydym yn sylweddoli bod rhai o'r meysydd polisi hyn yn gorgyffwrdd â phortffolios cabinet eraill a bydd angen mewnbwn gan eich cydaelodau. Byddem yn croesawu ymateb o fewn yr amserlenni arferol ac edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Caiff copi o'r llythyr hwn ei rannu gyda Chanolfan Gyfreithiol y Plant er gwybodaeth.

Yn gywir,

Buffy Williams AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Copi at:

Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.